# Penodi Cadeirydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Crynodeb:

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant Bwrdd Iechyd. Mae’n dwyn y Bwrdd Iechyd i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, perfformiad, cyflawni strategaeth a gwerth am arian, a datblygu a gweithredu strategol.

Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i’r Bwrdd Iechyd, staff a’r cyhoedd yn cael eu rheoli a’u lliniaru’n effeithiol. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol ac yn cynnwys cymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Annibynnol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad y Bwrdd Iechyd. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, cynnal gwerthoedd y GIG, a hybu hyder y cyhoedd a phartneriaid.

## Cefndir:

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac fe gafodd statws Prifysgol ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod y system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethiant cadarn, i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol y De.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 13,424 o staff cyfwerth ag amser cyflawn, sy'n gyfystyr â 17,011 o staff, a dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Mae ein gweithlu'n heneiddio, ac felly hefyd broffil demograffig ein poblogaeth, ac mae anghydraddoldebau iechyd ein poblogaeth i’w gweld hefyd o fewn ein gweithlu. Mae 80 y cant o'n staff yn byw yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd a lles staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o'n cynlluniau ataliol. Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Diolch ichi am fynegi diddordeb yn rôl Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am y Bwrdd yn ogystal â manylion am rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r broses ddethol.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn cael cyllideb o ychydig dan £1.6 biliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, i’w defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Gwent. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a lles yn yr ardal, yn arbennig drwy ein trefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Agorodd Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân ym mis Tachwedd 2020 ac mae'n darparu gofal critigol ac arbenigol i drigolion Gwent a De Powys. Mae tri uwch Ysbyty Cyffredinol Lleol yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau cleifion mewnol a chleifion allanol; sef Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd; Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Ceir hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill sydd wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd.

**Crynodeb Cyhoeddusrwydd:**

Dosbarthodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (PBU) a phostio'r swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Hyrwyddodd Aneurin Bevan y penodiad trwy ei wefan fwrdd, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chylchrediad ymhlith y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a grwpiau allweddol eraill sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Hefyd cafodd ei hyrwyddo'n fewnol drwy Rwydwaith BAME y Bwrdd Iechyd i annog ceisiadau gan y grwpiau hyn.

Hyrwyddwyd y swydd wag gan y sianeli Cyfryngau Cymdeithasol canlynol a'u hysbysebu trwy'r cyfryngau a restrir isod:

| |
|---|
| Twitter – Aneurin Bevan |
| Facebook a Instagram– Aneurin Bevan |
| LinkedIn – Aneurin Bevan |

Hysbysebion Taledig:

Swyddi Cymru
Rhwydwaith Diversity Jobsite
Golwg 360

**Crynodeb o'r broses recriwtio:**

Hysbysebwyd ar wefan Llywodraeth Cymru a Aneurin Bevan ac mewn hysbysebion taledig rhwng 27 Hydref 2025 a 21 Tachwedd 2025.

Sift – 9 Rhagfyr 2025

Cyfweliadau - 21 January 2026

**Aelodaeth panel cynghori asesu:**

Jacqueline Totterdell, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru
Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru (cadeirydd y panel)
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru

Ruth Marks, Uwch Aelod Annibynnol y Panel

Derbyniwyd cyfanswm 9 cais ar gyfer y rôl.

Argymhellwyd 4 ymgeisydd i gyfweliad. Ystyriodd y Panel Cynghori Asesu bod 2 ymgeisydd yn benodedig.